CARDIFF UNIVERSITY
PRIFYSGOL CAERDYDD

Ysgol y Gymraeg

Canllaw i'n Rhaglenni Israddedig

Mynediad 2016

www.caerdydd.ac.uk/cymraeg

Ysgol y Gymraeg

“Mae Prifysgol Caerdydd yn un o sefydliadau ymchwil ac addysgu mwyaf blaenllaw Prydain.”

Cyfieithiad i'r Gymraeg o ddyfyniad Saesneg: Telegraph Guide to UK Universities

MEWNWYR
cwrdd â'n myfyrwyr

Gwybodaeth o'r Tu Mewn – Cael gwybod rhagor . . .

Hoffech chi wybod sut beth yw bywyd yng Nghaerdydd mewn gwirionedd? Cewch wybod gan fyfyrwyr sy'n astudio amrywiaeth o bynciau. Cewch chi ddarllen eu blogiau, anfon sylwadau atynt, eu holi ac anfon negeseuon atynt ar Facebook a Twitter.

Am ragor o wybodaeth ewch i: **www.caerdydd.ac.uk/mewnwyr**

Dewch i rannu Profiad Caerdydd

Prifysgol flaenllaw . . .

- Byddwch chi'n rhan o brifysgol sy'n aelod o'r Grŵp Russell – un o brifysgolion o safon fyd-eang yn y DU.
- Cewch ddewis o blith mwy na 300 o raglenni gradd. Mae gradd Prifysgol Caerdydd yn uchel ei pharch ledled y byd ac mae nifer sylweddol o'n graddau wedi'u hachredu gan y proffesiynau a chyrff allanol eraill.
- Byddwch yn manteisio ar waith addysgu eithriadol mewn amgylchedd sy'n cael ei sbarduno gan ymchwil. Gosodwyd Caerdydd ymhlith 5 prifysgol orau'r DU am ansawdd ei hymchwil[1].
- Mae ein staff yn cynnwys Nobel Llawryfog a sawl un o Gymrodyr y Gymdeithas Frenhinol a sefydliadau mawreddog eraill.

mewn dinas eithriadol . . .

- Byddwch yn byw mewn dinas gryno, gyfeillgar a diogel a'ch holl anghenion astudio, byw a hamddena ar gael o fewn pellter cerdded.
- Bydd eich arian yn mynd ymhellach yng Nghaerdydd lle mae atyniadau prifddinas ar gael am brisiau rhanbarthol – gan gynnwys un o gostau byw cyfartalog isaf dinasoedd prifysgol[2]

gyda myfyrwyr galluog a brwdfrydig . . .

- Byddwch mewn prifysgol sy'n ddewis cyntaf i bawb a'r galw am leoedd yn gryf.
- Byddwch yn astudio mewn amgylchedd sy'n llawn myfyrwyr galluog a brwdfrydig sydd â'r graddau uchaf mewn arholiadau safon uwch neu arholiadau cyfatebol.
- Byddwch mewn prifysgol ryngwladol gyda myfyrwyr o fwy na chant o wledydd.

sydd â rhagolygon gyrfa rhagorol.

- Gallwch fod yn hyderus yn eich dyfodol – yn 2012/13, cafodd 95.1% o'n myfyrwyr swydd neu le mewn astudiaethau pellach o fewn chwe mis ar ôl gorffen eu hastudiaethau.[3]
- Bydd galw amdanoch – mae Caerdydd ymhlith y 25 prifysgol a dargedir gan gyflogwyr sy'n chwilio am raddedigion o galibr uchel.[4]

Nodiadau

1. Cewch wybod rhagor am ganlyniadau Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil 2014 (REF) ar dudalen 10
2. Moneysupermarket.com – Mynegai Ansawdd Byw 2014
3. Arolwg HESA o Gyrchfannau'r Rhai sy'n Gadael, 2013
4. Ymchwil i Ehedwyr Uchel – Marchnad Graddedigion 2014

Croeso

Croeso i Ysgol y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd!

Rydym yn Ysgol fywiog, lewyrchus a chartrefol sy'n edrych tua'r dyfodol ar ddatblygiad ein hiaith, ein cymdeithas a'n hunaniaeth yn y Gymru gyfoes.

Mae astudio'r Gymraeg ym Mhrifysgol Caerdydd yn brofiad heriol a chyffrous. Rydym yn falch iawn o'r amrywiaeth eang o fodiwlau sydd ar gael yma mewn meysydd unigryw a blaengar, o Gaffael Iaith i Gyfieithu Proffesiynol, o Gynllunio Ieithyddol a Pholisi Iaith i Hunaniaeth a Diwylliant y Wladfa. Beth bynnag eich diddordebau, mae rhywbeth yma i chi. Mae ein dulliau dysgu yn arloesol, ac yn eich annog i ddatblygu sgiliau arbenigol er mwyn eich paratoi ar gyfer gyrfaoedd yng Nghymru heddiw a'r tu hwnt. Cewch fanteisio ar ein lleoliad yng nghanol y brifddinas trwy ymgymryd â chyfnod o brofiad gwaith mewn amrediad o sefydliadau, a thynnu ar arbenigedd tîm o awduron proffesiynol yn ein modiwlau Ysgrifennu Creadigol a Sgriptio.

Mae gennym enw am fod yn Ysgol gyfeillgar, fodern ac agos atoch. Mae ein myfyrwyr yn dod o bob cwr o Gymru, yn ogystal â gwledydd megis Iwerddon, Ffrainc, yr Unol Daleithiau a Tseina. Rydym yn sicrhau ein bod yn rhoi'r gofal gorau i'n myfyrwyr, a digonedd o gefnogaeth – y myfyrwyr yw ein blaenoriaeth bob tro.

Yn y llyfryn hwn cewch wybodaeth gyffredinol am Ysgol y Gymraeg – ein modiwlau, ein lleoliad ynghanol y brifddinas, y llety arbennig sydd ar gael ar gyfer myfyrwyr Cymraeg eu hiaith, llwyddiannau'r Gym Gym (cymdeithas Gymraeg y myfyrwyr) ac Aelwyd y Waun Ddyfal, a'r cyfleoedd di-ben-draw sydd i fyfyrwyr gymryd rhan ym mywyd Cymraeg ffyniannus Caerdydd. Pa ryfedd bod cynifer o'n myfyrwyr am aros yma wedi graddio?

Mae croeso mawr ichi gysylltu neu drefnu ymweliad os hoffech ragor o wybodaeth am yr Ysgol.

Rhestrir ein diwrnodau agored ar ein gwefan. Wedi ymweld â ni a chyfarfod â'r staff, rwy'n hyderus mai Caerdydd fydd eich dewis cyntaf ar gyfer astudio'r Gymraeg ac rwy'n edrych ymlaen at eich croesawu.

Yr Athro Sioned Davies
Pennaeth Ysgol y Gymraeg

Cynnwys

Caerdydd: Y Brifddinas	4
Caerdydd: Y Brifysgol	6
Byw yng Nghaerdydd	8
Ysgol y Gymraeg	10
Rhaglenni Gradd Israddedig	11
Llwybrau Israddedig	13
Blwyddyn 2 a'r Flwyddyn Olaf	14
Dysgu ac Addysgu	15
Adnoddau Llyfrgell	16
Barn ein Myfyrwyr	17
Cyflogadwyedd a Gyrfaoedd	18
Sut i Wneud Cais	22
Ysgoloriaethau, Bwrsariaethau a Ffioedd	23
School of Welsh	24

Bydd y llyfryn hwn yn rhoi mwy o fanylion am ein rhaglenni i chi. Rydym yn gobeithio y bydd yn rhoi mwy na blas yn unig i chi o'r hyn sydd gennym i'w gynnig. Fodd bynnag, rydym bob amser yn barod i ateb unrhyw gwestiynau, dros y ffôn neu drwy ebost, neu pan fyddwch yn dod i Gaerdydd i ymweld â ni. Mae'r manylion cyswllt priodol ar ddiwedd y llyfryn hwn.

Gwybodaeth bwysig. Darllenwch yn ofalus.

Fel canllaw yn unig y mae'r Brifysgol yn cynnig yr wybodaeth yn y prosbectws hwn. Nid yw'n gontract ac nid yw'n rhwymo darpar fyfyrwyr, myfyrwyr cyfredol na'r Brifysgol. Er bod y Brifysgol yn ceisio'i gorau glas i wirio bod y cynnwys ffeithiol yn gywir adeg ei gyhoeddi, mae'n anochel y bydd yna newidiadau yn y cyfnod rhwng cyhoeddi'r prosbectws a'r flwyddyn academaidd y mae'n cyfeirio ati (Mynediad 2016). Er enghraifft, efallai y bydd cyrsiau, gofynion mynediad a chynigion nodweddiadol wedi newid yn unol â'r galw o du'r myfyrwyr, a datblygiadau ymchwil. Oherwydd hynny, ni ddylai ymgeiswyr ddibynnu ar y prosbectws hwn yn unig. Dylai ymgeiswyr wirio gwefan y Brifysgol (www.caerdydd.ac.uk) i gael yr wybodaeth ddiweddaraf am gynnwys y cyrsiau, achredu, a gofynion mynediad y flwyddyn academaidd berthnasol wrth bwyso a mesur gwneud cais i'r Brifysgol.

CYMUG154000

Caerdydd: Y Brifddinas

“Mae Caerdydd yn ddinas boblogaidd ymhlith myfyrwyr. Mae’n gymharol rad ac yn cynnig amrywiaeth dda o brofiadau diwylliannol a bywyd nos.”

Cyfieithiad i'r Gymraeg o ddyfyniad Saesneg: Times Good University Guide 2014



Canolfan y Mileniwm

Canolfan Siopa Dewi Sant II

Y Senedd

Rhagor ar-lein:
www.visitcardiff.com
www.caerdydd.ac.uk
www.caerdydd.gov.uk

Caerdydd yw prifddinas ieuengaf gorllewin Ewrop, ac mae'n lle delfrydol i dreulio eich cyfnod yn y Brifysgol. Mae'r ddinas yn fywiog ac eto'n gartrefol, yn gyfeillgar ac yn gosmopolitaidd. Mae ganddi gymuned Gymraeg gref – dros 36,000 o siaradwyr – ac felly mae cyfleoedd niferus i gymdeithasu drwy gyfrwng y Gymraeg.

Yn ogystal, gan mai hon yw prifddinas Cymru mae ynddi fwy o atyniadau na'r cyffredin. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Canolfan Mileniwm Cymru a nifer o neuaddau cyngerdd
- Stadiwm y Mileniwm a Stadiwm Dinas Caerdydd
- Y Senedd
- Amgueddfa Genedlaethol Cymru ac Amgueddfa Werin Cymru, Sain Ffagan
- Sinemâu, theatrau (Y Sherman, Y Theatr Newydd, Chapter), ac orielau celf
- Siopau (marchnadoedd, canolfan siopa Dewi Sant II, a'r arcedau Fictoraidd ac Edwardaidd sy'n llawn o siopau bychain unigryw ac annibynnol)
- Parciau agored bendigedig
- Clybiau nos, gan gynnwys Clwb Ifor Bach lle y cynhelir gigs a nosweithiau Cymreig misol megis Twrw
- Corau Aelwyd y Waun Ddyfal, CF1, Côrdydd, Côr Caerdydd a grwpiau dawns (gwerin a chyfoes)
- Gwyliau Cymraeg megis Tafwyl a Nyth
- Canolfan Gymraeg newydd 'Yr Hen Lyfrgell'
- Mannau bwyta a siopau coffi lu.

Lawr yn y Bae

Mae Bae Caerdydd yn llawn bwytai, bariau a chaffis amrywiol. Os ydych yn hoff o fajitas, swshi, stêc, cyri neu fwydydd traddodiadol Gymreig, bydd yna rywbeth at eich dant. A chyda'ch bwyd, cewch olygfa. Mae pensaernïaeth gyfoes flaenllaw yma, o Ganolfan Mileniwm Cymru i'r Senedd, cartref Cynulliad Cenedlaethol Cymru ac un o'r adeiladau mwyaf blaengar ac eco-gyfeillgar yn y byd. Mae croeso ichi fynd draw i wylio trafodaeth fyw rhwng y gwleidyddion, ac i suddo i soffa ledr foethus a thrafod materion y dydd dros goffi masnach deg.

Stadiwm y Mileniwm

Bae Caerdydd

Cynhelir nifer o nosweithiau Cymreig yng Nghlwb Ifor Bach

Teithio

Mae Caerdydd yn ddinas hynod o hwylus i fynd o'i chwmpas, ac oherwydd ei maint twt, mae popeth wedi ei leoli o fewn cyrraedd cyfleus. Mae'n ddiogel i seiclo o'r naill le i'r llall yma, ac mae lonydd arbennig wedi eu neilltuo at y pwrpas hwn.

Mae gwasanaeth bysiau Caerdydd hefyd yn rheolaidd ac yn ddibynadwy ac yn mynd i bob cwr o'r ddinas am bris rhesymol drwy gydol y dydd tan yr hwyrnos.

Mae'r gorsafoedd trenau a'r orsaf fysiau ganolog yn cynnig gwasanaethau ledled Cymru a'r DU. Mae yna drên cyflym yn rhedeg yn uniongyrchol o Gaerdydd i Fangor (mewn ychydig dros 4 awr), yn ogystal â thrên cyflym i Lundain (mewn 2 awr).

O Faes Awyr Caerdydd cewch hedfan yn uniongyrchol i nifer o leoliadau, gan gynnwys Ynys Môn, Gogledd America, Barbados, a'r Aifft, ynghyd â thros 400 o deithiau cysylltiol ledled y byd.

Caerdydd: Y Brifysgol

Mae gan Brifysgol Caerdydd enw da yn rhyngwladol oherwydd ei rhagoriaeth a hynny ar sail hanes o wasanaethu er 1883. Mae ganddi gampws dinesig deniadol mewn lleoliad godidog, ac mae'n cynnig dewis aruthrol o raglenni gradd hyblyg, cyfleusterau gwych a llety rhagorol.

Mae Prifysgol Caerdydd yn sefydliad addysg uwch llwyddiannus a bywiog sydd wedi ei leoli yng nghalon y brifddinas yng nghanol adeiladau urddasol y Ganolfan Ddinesig.

Mae wedi ennill canmoliaeth ryngwladol am ymchwil ac addysg o'r radd flaenaf ers ei sefydlu yn 1883. Caerdydd yw'r unig brifysgol yng Nghymru sy'n aelod o Grŵp Russell, corff sy'n cynrychioli rhai o brifysgolion mwyaf blaenllaw Prydain ym myd ymchwil. Mewn asesiadau annibynnol ar ran y Llywodraeth cydnabyddir bod Prifysgol Caerdydd gyda'r mwyaf blaenllaw o brifysgolion addysgu ac ymchwil Prydain ac mae'n bwerdy i ymchwil yng Nghymru. Mae ansawdd ac effaith gwaith ymchwil Prifysgol Caerdydd wedi sicrhau dyrchafiad sydyn yn nhablau'r gynghrair, gan wthio'r Brifysgol i bump uchaf prifysgolion y DU yn Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil (REF) 2014.

Arbenigedd

Mae arbenigedd y Brifysgol yn cwmpasu'r dyniaethau, y gwyddorau cymdeithasol, y gwyddorau naturiol a ffisegol, iechyd a meddygaeth, peirianneg a thechnoleg. Maent oll yn rhoi paratoad heb ei ail i'w graddedigion ar gyfer nifer fawr o broffesiynau.

A chanddi dros 30,000 o fyfyrwyr a thua 6,000 o staff, mae Prifysgol Caerdydd yn gymuned gyffrous a llewyrchus.

Byw yng Nghaerdydd

Llety

Mae Prifysgol Caerdydd yn gwarantu llety i bob myfyriwr Blwyddyn 1 o fewn cyrraedd cyfleus i'r adeiladau academaidd a chanol y ddinas.

Mae nifer o fanteision i fyw yn llety'r Brifysgol, yn enwedig yn ystod eich blwyddyn gyntaf:

- Cyfle i gymysgu a chwrdd â nifer o fyfyrwyr eraill o wahanol gefndiroedd
- Diogelwch 24 awr, 7 diwrnod yr wythnos
- Cyfleusterau da yn cynnwys canolfan chwaraeon, siop, golchdy, a bar
- Dewis o lety arlwyol neu hunanarlwyol

Mae 15 o breswylfeydd gwahanol yn darparu mwy na 5,500 o ystafelloedd gwely astudio. Mae gan tua 70% o'r llofftydd gawod a chyfleusterau *en-suite* ac mae gan bob neuadd breswyl bwyntiau cyswllt a mynediad at gysylltiad gwe di-wifr.

Mae'r ffioedd llety yn dibynnu ar y cyfleusterau a gynhwysir ond mae prisiau yn cymharu'n ffafriol iawn â rhai o brifysgolion eraill y DU.

Fflatiau Cymraeg

Os ydych yn dymuno byw mewn awyrgylch Cymraeg yna mae fflatiau wedi eu neilltuo'n arbennig ar gyfer myfyrwyr Cymraeg eu hiaith. Gan amlaf mae'r fflatiau hyn naill ai yn Llys Senghennydd neu yn Llys Tal-y-bont, lleoliadau sydd yn denu myfyrwyr o bedwar ban byd. Cewch yr wybodaeth ddiweddaraf a rhagor o fanylion am y neuaddau unigol ar dudalennau gwe y Brifysgol. Gallwch lenwi eich ffurflen gais ar gyfer llety ar wefan y Brifysgol, ac mae modd nodi arni eich bod am fyw mewn fflat Gymraeg.

Erbyn eich ail flwyddyn, y mae'n bosibl y byddwch yn dymuno symud i lety o'ch dewis chi yn y ddinas. Mae dewis helaeth o lety o bob math yn agos i'r Brifysgol, ac mae cyngor ar gael gan swyddfa llety'r Brifysgol yn Undeb y Myfyrwyr. Mae ganddynt gysylltiadau clòs â'r sector breifat er mwyn eich helpu i ganfod tŷ neu fflat addas.

Bywyd Myfyrwyr

Mae gan Gaerdydd gyfleusterau gwych ar gyfer myfyrwyr, ac mae'r cyfan o fewn cyrraedd hwylus i'r campws a'r neuaddau preswyl.

Yr Undeb

Mae'r Undeb yng Nghaerdydd wedi cael ei henwebu dro ar ôl tro am fod gyda'r mwyaf a'r gorau ym Mhrydain. Ymhlith y swyddogion sydd yn cael eu hethol yn flynyddol gan y myfyrwyr y mae Swyddog y Gymraeg, sydd yn gyfrifol am gynrychioli buddiannau myfyrwyr sy'n siarad Cymraeg yn y Brifysgol. Mae'r Undeb yn cynnal ymgyrch flynyddol i hyrwyddo llais y myfyriwr, sef 'Wythnos Siarad', lle cewch gyfle i roi adborth ar bob agwedd ar y Brifysgol.

Yn ddiweddar mae £5 miliwn wedi ei fuddsoddi yn yr Undeb fel rhan o gynllun adnewyddu uchelgeisiol. Ymhlith yr adnoddau yno y mae:

- Mwy na 180 o gymdeithasau diwylliannol, gwleidyddol, crefyddol a chymdeithasol a 60 o glybiau chwaraeon
- Siop lyfrau a banc
- Asiantaeth osod (lle y gellir chwilota am gartref i'w rentu)
- Siop swyddi (sy'n helpu myfyrwyr i ddod o hyd i swyddi rhan-amser)
- Cynllun gwirfoddoli i fyfyrwyr
- Gorsaf radio (Xpress Radio) a sianel deledu (CUTV)
- Canolfan gyngor a chynrychiolaeth
- Gwasanaeth Datblygu Sgiliau
- Ystafell gemau, byrddau snwcer a byrddau pŵl

Mae cynllun 'Rho Gynnig Arni' yr Undeb yn galluogi myfyrwyr i roi cynnig ar ystod eang o weithgareddau heb orfod cofrestru'n ffurfiol.

Dyma gyfle ichi flasu profiadau newydd o chwaraeon i wleidyddiaeth neu'r celfyddydau.

Papur Newydd Myfyrwyr

Mae llawer o fyfyrwyr y Brifysgol yn ysgrifennu ar gyfer *Gair Rhydd*, y papur newydd wythnosol a gynhyrchir gan Undeb y Myfyrwyr yn rhad ac am ddim. Mae *Gair Rhydd* yn croesawu unrhyw un sydd am ysgrifennu ar gyfer y papur, golygu tudalennau, cyfweld â phobl neu dynnu lluniau. Mae'r papur yn cynnwys colofn Gymraeg *Taf-Od* bob wythnos. Mae cyfle ar gael hefyd i gyfrannu at *Quench*, cylchgrawn Undeb y Myfyrwyr, bob yn ail wythnos.

Y Gym Gym

Y Gym Gym yw Cymdeithas Gymraeg myfyrwyr Prifysgol Caerdydd, a chyda bron i 200 o aelodau, mae'n un o gymdeithasau mwyaf bywiog y Brifysgol. Mae ymaelodi yn ffordd wych o ddod i adnabod siaradwyr Cymraeg eraill y Brifysgol, ac i fwynhau eich cyfnod yn y Brifysgol drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae'r aelodau'n cwrdd yn rheolaidd ac yn trefnu digwyddiadau cymdeithasol sy'n amrywio o nosweithiau cymdeithasol i deithiau tramor (e.e. i wylio gemau rygbi neu i sgïo yn yr Alpau), a hyd yn oed stomp lenyddol yn erbyn staff Ysgol y Gymraeg! Maent yn cynrychioli'r Brifysgol yn yr Eisteddfod Ryng-golegol bob blwyddyn, ac mae ganddynt hefyd dimau pêl-droed, rygbi a phêl-rwyd sy'n cystadlu yng nghynghrair y Brifysgol.

Dilynwch Y Gym Gym ar Twitter: @YGymGym

Ymunwch â'r Gym Gym ar Facebook: facebook.com/ygym.gym

Y Plas yw clwb nos newydd Undeb y Myfyrwyr

Rhagor ar-lein:
www.caerdydd.ac.uk
www.caerdydd.ac.uk/preswylfeydd
www.myfyrwyrcaerdydd.com
www.caerdydd.ac.uk/mewnwyr

Mae gan fyfyrwyr fynediad at amrywiaeth eang o gyfleusterau modern, gan gynnwys bythau Skype

"Mae Undeb y Myfyrwyr yn darparu ystod ardderchog o gyfleusterau, clybiau a chymdeithasau."

Cyfieithiad i'r Gymraeg o ddyfyniad Saesneg: The Good University Guide Times

Aelwyd y Waun Ddyfal

Os yw'r celfyddydau a pherfformio yn mynd â'ch bryd, yna dylech ymuno ag Aelwyd y Waun Ddyfal. Ers ei sefydlu gan fyfyrwyr Ysgol y Gymraeg yn 2006 mae wedi tyfu o nerth i nerth, a chanddi erbyn hyn dros 200 o aelodau. Mae'r Côr Ilwyddiannus yn cystadlu'n gyson yng nghystadlaethau Côr Cymru, yr Eisteddfod Genedlaethol, yr Urdd â'r Ŵyl Gerdd Dant. Mae'r Aelwyd hefyd wedi perfformio yn gyhoeddus yn y ddinas ac yn trefnu digwyddiadau drwy gydol y flwyddyn. Yn y gorffennol mae'r Côr hefyd wedi cael y cyfle i ganu yng Ngŵyl Gymreig Disneyland Paris. Dilynwch Aelwyd y Waun Ddyfal ar Twitter: @WaunDdyfal



Lleolir Ysgol y Gymraeg yn Adeilad John Percival sydd yng nghanol Campws Parc Cathays.

Mae'r adeilad drws nesaf i Lyfrgell y Dyniaethau a'r Gwyddorau Cymdeithasol ac mae o fewn tafliad carreg i ganol y ddinas. Mae'n cymryd tua 5 munud i gerdded i orsaf drên Cathays o'r adeilad ac mae'r cyfan o fewn cyrraedd hwylus i'r neuaddau preswyl.

Ysgol y Gymraeg

Mae Ysgol y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd yn ysgol lewyrchus a chartrefol, sydd yn cynnig safonau uchel iawn o ran dysgu ac addysgu i'n myfyrwyr.

Blaengar

Ysgol y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd yw un o'r canolfannau academaidd mwyaf blaengar ar gyfer astudio'r Gymraeg, ei llenyddiaeth a'i diwylliant. Mae ganddi'r safonau uchaf o ran dysgu ac ymchwil, ac enw am fod yn Ysgol fywiog, fodern a chyfeillgar.

Hanes disglair ac arloesol

Ers dros ganrif a chwarter mae Ysgol y Gymraeg yn cyfrannu'n helaeth i fywyd Cymru. Bu'n gartref ac yn feithrinfa i ysgolheigion a llenorion amlwg, gan gynnwys W. J. Gruffydd, G. J. Williams a Saunders Lewis. Mae'r Ysgol wedi bod ar flaen y gad mewn sawl maes o safbwynt y Gymraeg. Oeddech chi'n gwybod mai yma y penodwyd yr Athro Cymraeg llawn-amser cyntaf ac mai yma yr astudiodd merched ar gyfer gradd yn y Gymraeg am y tro cyntaf? Datblygiad pwysig arall oedd penodi merch i'r Gadair am y tro cyntaf.

Perthnasol

Mae ymchwil Ysgol y Gymraeg o safon ryngwladol. Mae'n caniatáu inni gynnig modiwlau blaengar, ymarferol a pherthnasol sydd yn darparu sgiliau academaidd a galwedigaethol er mwyn paratoi ein myfyrwyr ar gyfer y gweithle. Byddwn yn cadw golwg fanwl ar ddatblygiadau perthnasol i'r Gymraeg yng Nghymru ac yn rhyngwladol er mwyn sicrhau bod ein darpariaeth yn gyfoes ac yn arloesol. Caiff hyn ei adlewyrchu yn yr amrywiaeth eang o fodiwlau sydd ar gael ac yn y drysau helaeth y mae gradd yn y Gymraeg o Brifysgol Caerdydd yn eu hagor.

Ymchwil rhagorol

Ysgol y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd, yw'r orau yng Nghymru a'r seithfed yn y Deyrnas Unedig am ansawdd ei hymchwil yn Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil (REF) 2014. Mae'r Fframwaith yn asesu ac yn cydnabod gwerth ac effaith y gwaith ymchwil a wneir mewn sefydliadau addysg uwch yn y DU. Mae sgôr Caerdydd yn ein rhoi uwchben Rhydychen, Caergrawnt a Bryste o safbwynt rhagoriaeth ymchwil. Llwyddodd ymchwil yr Ysgol i ennill y sgôr uchaf posib (100%) am ei effaith ar y byd ehangach, yr unig un i gyflawni hynny ym maes Ieithoedd Modern ac Ieithyddiaeth Iedled y DU.

> **"Mae gwaith ymchwil wrth galon ein gwaith yma yng Nghaerdydd, gan gyfrannu'n uniongyrchol at ein haddysgu ond hefyd at y gymdeithas a'r diwylliant o'n cwmpas. Rwy'n falch iawn o'r effaith mae Ysgol y Gymraeg wedi'i chael, ac yn parhau i'w chael, ar fywyd modern yng Nghymru yn ddiwylliannol, yn wleidyddol ac yn gymdeithasol."**
>
> Yr Athro Sioned Davies

Rhagor ar-lein:
www.caerdydd.ac.uk/cymraeg

Rhaglenni Gradd Israddedig

Mae pwyslais ar gynnig dewis a fydd yn llunio rhaglen radd gyfoes o safon academaidd sy'n berthnasol i ofynion gweithleoedd yn y Gymru gyfoes ac yn rhyngwladol.

Mae Ysgol y Gymraeg yn cynnig tair rhaglen radd ar gyfer israddedigion:

- Anrhydedd Sengl yn y Gymraeg
- Cydanrhydedd yn y Gymraeg (trwy gyfuno'r Gymraeg â phwnc arall)
- LLB yn y Gyfraith a'r Gymraeg

Mae modd astudio ar gyfer gradd anrhydedd sengl yn rhan-amser hefyd (gweler tudalen 15).

Wrth ichi ddewis modiwlau (neu gyrsiau penodol) gallwch ddilyn trywydd llenyddol (modern neu ganoloesol) a chreadigol, trywydd ieithyddol, trywydd diwylliannol a chymdeithasegol, neu gyfuniad o fodiwlau sy'n adlewyrchu eich diddordebau personol chi. Ymhlith y meysydd arloesol mae:

- Cyfieithu Proffesiynol
- Technoleg Iaith
- Llenyddiaeth Plant
- Caffael Iaith
- Diwylliant Cymraeg y Brifddinas







Gradd Anrhydedd Sengl yn y Gymraeg

Yn eich blwyddyn gyntaf bydd modd ichi astudio hyd at 120 credyd yn y Gymraeg.

Yn yr Ail Flwyddyn a'r Flwyddyn Olaf byddwch yn dilyn modiwlau craidd yn Ysgol y Gymraeg a fydd yn meithrin eich sgiliau ieithyddol a'ch gallu i ddadansoddi llenyddiaeth o bob cyfnod. Gallwch hefyd ddewis nifer o fodiwlau dewisol a fydd yn gweddu i'ch diddordebau chi.

Gradd Gydanrhydedd yn y Gymraeg

Un o gryfderau Prifysgol Caerdydd yw'r dewis eang o bynciau y gellir cyfuno'r Gymraeg â hwy ar gyfer gradd gydanrhydedd. Dyma restr o'r pynciau hynny:

- Addysg
- Almaeneg
- Archaeoleg
- Astudiaethau Crefyddol
- Athroniaeth
- Cerddoriaeth
- Cymdeithaseg
- Eidaleg
- Ffrangeg
- Gwleidyddiaeth
- Hanes
- Hanes yr Henfyd
- Yr Iaith Saesneg
- Llenyddiaeth Saesneg
- Mathemateg
- Newyddiaduraeth
- Sbaeneg

Gan fod myfyrwyr ail iaith yn dilyn amserlen ddwys wahanol yn y flwyddyn gyntaf, cysylltwch â'r Ysgol i drafod y cyrsiau cydanrhydedd sydd ar gael a manylion pellach amdanynt.
Email: cymraeg@caerdydd.ac.uk
Telephone: (0)29 2087 4710

LLB yn y Gyfraith a'r Gymraeg*

Mae Ysgol y Gyfraith ac Ysgol y Gymraeg yn cynnig rhaglen radd anrhydedd sy'n arwain at LLB yn y Gyfraith a'r Gymraeg. Nod y radd yw cynhyrchu graddedigion cymwys i ymarfer eu gwybodaeth gyfreithiol drwy gyfrwng y Gymraeg yn ogystal â'r Saesneg. Mae'r radd yn cwrdd â gofynion y cyrff proffesiynol ar gyfer mynd ymlaen i ymgymhwyso yn gyfreithiwr neu yn fargyfreithiwr. Os dewiswch y rhaglen hon, byddwch fel arfer yn treulio tua thraean o'ch amser yn dilyn modiwlau yn Ysgol y Gymraeg.

Sylwer mai rhaglen yw hon ar gyfer myfyrwyr sydd â gradd B, o leiaf, yn y Gymraeg Safon Uwch fel **iaith gyntaf yn unig (neu sydd â Chymraeg o safon gyfatebol). Mae myfyrwyr **ail iaith** yn dilyn amserlen ddwys wahanol yn y flwyddyn gyntaf, ac felly nid yw'r rhaglen ar gael i'r myfyrwyr hynny.*

Rhagor ar-lein:
www.caerdydd.ac.uk/cymraeg

Llwybrau Israddedig

Mae dau lwybr ar gyfer y rhaglenni gradd yn y Gymraeg: iaith gyntaf ac ail iaith.

Ym Mlwyddyn 1 bydd y myfyrwyr iaith gyntaf ac ail iaith yn cael eu dysgu ar wahân. Erbyn Blwyddyn 2 a'r Flwyddyn Olaf bydd y ddwy garfan yn dilyn nifer o'r un modiwlau, ond bydd darpariaeth ieithyddol wahanol wedi'i theilwra ar eu cyfer. Seilir dosbarth terfynol gradd myfyrwyr ar eu perfformiad yn ystod Blwyddyn 2 (40%) a'r Flwyddyn Olaf (60%).

Blwyddyn 1 Iaith Gyntaf

Gall myfyrwyr astudio hyd at 120 credyd yn y Gymraeg. Y nod yw cynnig dewis diddorol ac arloesol o fodiwlau sy'n rhoi blas ichi ar rai o feysydd astudiaeth y radd, ynghŷd â datblygu sgiliau academaidd, beirniadol ac ieithyddol. Cynigir y chwe modiwl a ganlyn (y mae'r tri cyntaf yn orfodol fel rheol):

- Cyflwyniad i'r Gymraeg
- Llenyddiaeth Gymraeg
- O Destun i Draethawd
- Diwylliant y Gymraeg
- Diwylliant Cymraeg Dinas Caerdydd
- Mapio'r Cymry

Rhaid i fyfyrwyr sy'n astudio ar gyfer gradd gydanrhydedd yn y Gymraeg a phwnc arall astudio isafswm o 60 credyd yn y Gymraeg ym Mlwyddyn 1. Bydd myfyrwyr LLB yn y Gyfraith a'r Gymraeg yn dilyn 40 credyd yn y Gymraeg (sef y modiwlau Cyflwyniad i'r Gymraeg a Llenyddiaeth Gymraeg), ynghyd ag 80 credyd o blith modiwlau Ysgol y Gyfraith.

Blwyddyn 1 Ail Iaith

Mae'r llwybr hwn wedi ei ddatblygu yn sgil buddsoddiad gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol. Ceir pwyslais ar ddatblygu rhuglder a meithrin sgiliau ieithyddol a beirniadol a fydd yn sylfaen gadarn ar gyfer Blwyddyn 2 a'r Flwyddyn Olaf.

Mae modd i fyfyrwyr astudio hyd at 120 credyd yn y Gymraeg. Cynigir y chwe modiwl a ganlyn (y mae'r pedwar cyntaf yn orfodol):

- Sgiliau Llafar
- Defnyddio'r Gymraeg
- Astudio Barddoniaeth
- Astudio Rhyddiaith
- Y Gymraeg Heddiw *
- Y Gymraeg a'r Brifddinas *

** ar gael i fyfyrwyr anrhydedd sengl yn unig*

Blwyddyn 2 a'r Flwyddyn Olaf

Ym Mlwyddyn 2 a'r Flwyddyn Olaf, daw'r myfyrwyr iaith gyntaf ac ail iaith ynghyd am y rhan fwyaf o'r modiwlau. Bydd myfyrwyr cydanrhydedd yn dilyn nifer gyfartal o fodiwlau yn y Gymraeg ac yn y pwnc arall. Bydd myfyrwyr LLB yn y Gyfraith a'r Gymraeg yn dilyn tua thraean o'u modiwlau yn y Gymraeg.

Modiwlau Craidd

Mae gofyn i holl fyfyrwyr yr Ysgol (o bob rhaglen) ddilyn rhai modiwlau gorfodol ym Mlwyddyn 2:

- Cymraeg y Gweithle a'r Gymuned (Blwyddyn 2 iaith gyntaf)
- Sgiliau Iaith (Blwyddyn 2 ail iaith)
- Ysgrifennu Academaidd (Blwyddyn 2 ail iaith)

Mae'r modiwlau a ganlyn yn rhai gorfodol i fyfyrwyr anrhydedd sengl ac yn ddewisol i fyfyrwyr cydanrhydedd:

- Ailddehongli Llenyddiaeth yr Oesoedd Canol
- Dadeni a Diwygiad 1550–1900
- Llenyddiaeth er 1900
- Hanes yr Iaith

Yn y Flwyddyn Olaf, rhaid dewis rhwng dau fodiwl craidd a gynigir yn flynyddol:

- Blas ar Ymchwil (20 credyd)
- Ymchwilio Estynedig (40 credyd) (ar gael i fyfyrwyr anrhydedd sengl a chydanrhydedd yn unig)

Modiwlau Dewisol

Dyma restr o rai o feysydd ein modiwlau dewisol: bydd modiwl unigol yn cael ei gynnig bob yn ail flwyddyn, fel rheol.*

- Barddoniaeth a Llenyddiaeth Gyfoes
- Barddoniaeth a Llenyddiaeth yr Oesoedd Canol
- Cyfieithu Proffesiynol
- Cynllunio Ieithyddol a Pholisi Iaith
- Diwylliant ac Arferion Gwerin
- Llenyddiaeth, Diwylliant a Gwleidyddiaeth
- Meysydd Llenyddol neu Ddiwylliannol, gan gynnwys Llenyddiaeth Plant
- Sosioieithyddiaeth a Chaffael Iaith
- Tafodieitheg
- Technoleg Iaith
- Theori a Beirniadaeth Lenyddol
- Ysgrifennu Creadigol a Sgriptio

*Dylid cofio bod elfen o newid i'w disgwyl o bryd i'w gilydd yn yr union fodiwlau a gynigir gan yr Ysgol. Yn un peth, mae'r Ysgol yn adolygu ac yn gwerthuso ei chyrsiau a'i modiwlau yn rheolaidd. Ar ben hynny, gall newidiadau mewn amgylchiadau olygu bod rhai modiwlau yn cael eu newid, eu gohirio, eu dileu neu eu hychwanegu.







Rhagor ar-lein:
www.caerdydd.ac.uk/cymraeg

Dysgu ac Addysgu

Gradd Ran-Amser yn y Gymraeg

Mae nifer gynyddol o bobl yn dymuno astudio ar gyfer gradd yn y Gymraeg, ond nid yw eu hamgylchiadau yn caniatáu iddynt ddilyn cwrs llawn-amser. I ateb yr angen hwn, felly, rydym yn cynnig cyfle i astudio'r radd BA yn y Gymraeg yn rhan-amser.

Strwythur y Radd Ran-Amser

Cyfanswm o 360 credyd yw gradd BA Anrhydedd yn y Gymraeg. Bydd myfyrwyr llawn-amser yn ennill y credydau hyn dros gyfnod o dair blynedd, fel arfer drwy astudio 120 credyd bob blwyddyn, ond bydd myfyrwyr rhan-amser yn ennill y rhain dros gyfnod o hyd at wyth mlynedd.

Bydd myfyrwyr rhan-amser yn cymryd dwy flynedd i gwblhau'r hyn sydd yn cyfateb i Blwyddyn 1 y radd yn llawn-amser. Yna byddant yn astudio rhwng 40 ac 80 credyd bob blwyddyn.

Rhaid pwysleisio mai gradd ran-amser a gynigir gan Ysgol y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd, ac nid gradd allanol. Nid oes darpariaeth wahanol neu ychwanegol ar gyfer myfyrwyr rhan-amser (e.e. ni chynhelir dosbarthiadau iddynt gyda'r hwyr nac ar ddydd Sadwrn). Dilynir yr un modiwlau a'r un amserlen yn union gan y myfyrwyr llawn-amser a'r rhai rhan-amser, ac fe'u dysgir oll yn yr un dosbarthiadau. Hyd y cwrs yw'r unig wahaniaeth rhwng y radd ran-amser a'r radd lawn-amser.

Dulliau Dysgu ac Asesu

Mae Ysgol y Gymraeg Prifysgol Caerdydd yn darparu addysg gyffrous a heriol er mwyn galluogi ein myfyrwyr i lwyddo mewn amgylchedd cystadleuol. Bydd hyn hefyd yn sicrhau bod modd ichi ddangos eich doniau hyd eithaf eich gallu a chyrraedd eich llawn botensial.

Ysgol Arloesol

Mae staff Ysgol y Gymraeg yn cyfuno arbenigedd yn y maes â dulliau blaengar ac arloesol wrth ddysgu, gan gynnwys gweithdai, seminarau, tiwtorialau grŵp, tiwtorialau un-wrth-un, dosbarthiadau darllen, sesiynau hyfforddi llafar, sesiynau technoleg gwybodaeth a darlithoedd. Rydym yn deall bod unigolion yn dysgu mewn ffyrdd gwahanol i'w gilydd. Ein nod yw cynhyrchu sesiynau dysgu sy'n hyrwyddo dysgwyr annibynnol ac sy'n caniatáu ichi ddatblygu eich gwybodaeth, eich dealltwriaeth a'ch sgiliau drwy ymwneud yn greadigol â gwahanol agweddau ar y pwnc. Bydd cyfle helaeth ichi ymarfer yr hyn yr ydych yn ei ddysgu – ar lafar ac yn ysgrifenedig – mewn awyrgylch cyfeillgar a chefnogol.

Technoleg

Byddwn yn cefnogi eich dysgu drwy ddefnyddio'r dechnoleg ddiweddaraf. Craidd hyn yw'r Amgylchedd Dysgu Rhithwir, sy'n darparu cartref ar-lein ar gyfer ein modiwlau. Trwyddo mae modd cael mynediad at gyflwyniadau, taflenni, testunau digidol a llyfryddiaethau perthnasol, ynghyd â gwahanol fathau o ddeunyddiau electronig eraill, boed yn ffeiliau fideo a sain, neu'n brofion ac ymarferion.

Bydd pob un o'n myfyrwyr yn derbyn cyfrif electronig a fydd yn galluogi iddynt gadw eu gwaith yn ddiogel ar system y Brifysgol, yn ogystal â chyfrif e-bost personol a mynediad i system e-ddysgu'r Brifysgol. Mae rhyngwynebau'r rhain oll ar gael yn y Gymraeg a rhoddwn hyfforddiant ar sut mae defnyddio technoleg yn Gymraeg i'n myfyrwyr. At hynny, mae'r ystafelloedd cyfrifiaduron ar agor yn hwyr ac ar benwythnosau, ac mae rhai ar agor 24 awr y dydd, saith diwrnod yr wythnos. Gall pob myfyriwr gysylltu gliniadur yn ddi-wifr â'r we ledled campws y Brifysgol.

Asesu

Rydym yn ymwybodol fod myfyrwyr yn ymateb yn wahanol i wahanol ddulliau asesu, ac felly rydym yn defnyddio ystod eang o ddulliau i roi cyfle i bawb ddangos eu doniau. Mae'r traethawd a'r arholiad yn ddau ddull pwysig, ond rydym hefyd yn asesu drwy gyfrwng profion dosbarth (a gynhelir ar bapur neu ar gyfrifiadur), profion llafar, gwaith prosiect, gwaith grŵp a phortffolio. Bydd yr amrywiaeth yn yr asesu yn ymestyn eich sgiliau ac yn eich paratoi ar gyfer amrywiol anghenion byd gwaith. Byddwn yn cynnig adborth unigol ichi ar yr holl asesiadau sy'n cyfrannu at eich gradd derfynol. Byddwch hefyd yn cael cyfle i gwblhau asesiadau na fyddant yn cyfrannu at eich gradd, ond a fydd yn rhoi cyfle ichi ddatblygu eich galluoedd drwy gael adborth unigol ar eich gwaith

Adnoddau Llyfrgell

Mae gan Brifysgol Caerdydd lyfrgelloedd o'r radd flaenaf, ac maent o fewn cyrraedd hwylus i Ysgol y Gymraeg. Mae yna dros 1.5 miliwn o gyfrolau yn llyfrgelloedd y Brifysgol, gan gynnwys nifer o gasgliadau pwysig o lyfrau prin ac archifau.

Llyfrgell Salisbury yw enw casgliad Cymreig a Cheltaidd Llyfrgell Prifysgol Caerdydd. Mae'n gasgliad helaeth sy'n cynnwys tua 100,000 o eitemau gan gynnwys:

- dros 50,000 o lyfrau a chylchgronau
- baledi, mapiau, printiau
- llawysgrifau ac archifau unigryw
- nifer sylweddol o bapurau newydd Cymreig ar ficroffilm
- casgliad eithaf cynhwysfawr o lawysgrifau canoloesol Cymreig ar ficroffilm

Ar ben hynny, mae Caerdydd yn gartref i bob math o lyfrgelloedd ac archifau arbenigol, gan gynnwys:

- Llyfrgell Ganolog Caerdydd
- Llyfrgelloedd yr Amgueddfa Genedlaethol
- Archifau Amgueddfa Werin Cymru, Sain Ffagan
- Llyfrgell Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru
- Archifau BBC Cymru
- Archifdy Morgannwg

Rhwng y cwbl, felly – ac fel sy'n gweddu i'r brifddinas – Caerdydd yw un o'r canolfannau pwysicaf ar gyfer ymchwil i bob agwedd ar ddiwylliant a bywyd Cymru, ddoe, heddiw ac yfory.



Llyfrgell Ganolog Caerdydd

Llyfrgell Salisbury

Rhagor ar-lein:
www.caerdydd.ac.uk/cymraeg

Barn Ein Myfyrwyr

Hannah Pearce

BA yn y Gymraeg. Blwyddyn 2

"Dewisais astudio'r Gymraeg ym Mhrifysgol Caerdydd oherwydd bod yr amrywiaeth o fodiwlau a gynigir gan Ysgol y Gymraeg yn apelio'n fawr ata i. Mae'r modiwlau'n amrywio o'r rhai mwyaf traddodiadol fel Llenyddiaeth er 1900 i rai mwy cyfoes a chreadigol fel y modiwl ar Ysgrifennu Creadigol. Mae staff yr Ysgol yn rhai hawdd troi atyn nhw ac yn barod i'ch helpu chi bob amser. Caiff pob myfyriwr diwtor personol sydd wastad ar gael i gynnig cyngor. Rwyf wedi cael blas arbennig ar fy nghyfnod yn Ysgol y Gymraeg ac wedi cael gwybodaeth a llond lle o sgiliau sydd wedi fy mharatoi i ar gyfer bywyd ar ôl y Brifysgol."

Mared Harries

BA yn y Gymraeg, Blwyddyn 1

"Dwi wrth fy modd yn astudio yn y Brifddinas. Nid yn unig mae'n lleoliad arbennig i fyw sy'n cynnig cyfle gwych i gymdeithasu yn y Gymraeg, ond mae Ysgol y Gymraeg yn un glòs gyda'r holl diwtoriaid o hyd yn barod i gynnig help llaw. Mae'r ysgol yn cynnig ystod eang o opsiynau modiwlau, ac ni fynnwn i astudio yn unman arall."

Sioned Thomas

BA yn y Gymraeg. Blwyddyn 2

"Rwyf yn fyfyrwraig sydd ar fin dechrau fy nhrydedd flwyddyn yn Ysgol y Gymraeg ac yn joio mas draw. Mae safon yr addysg a'r hyfforddiant a ddarperir gan staff yr ysgol yn wych. Perthynas glòs iawn sydd gan y myfyrwyr gyda'u tiwtoriaid a'r darlithwyr sydd yn barod i helpu bob amser. Wrth astudio Cymraeg , mae fy nealltwriaeth a sgiliau iaith wedi datblygu yn aruthrol. Mae cyfle i astudio amrywiaeth o fodiwlau sydd yn darparu gwybodaeth fydd o fudd ar gyfer y dyfodol. Roedd ymuno â'r Gymdeithas Gymraeg (Y Gym Gym) hefyd yn ffordd o gymdeithasu gyda myfyrwyr Cymraeg o fewn y Brifysgol ac yn lot o hwyl."



Abbie Bolitho

BA yn y Gymraeg. Blwyddyn 2

"Dewisais i astudio yng Nghaerdydd achos bod y cwrs yn rhoi ffocws ar fagu hyder wrth ddefnyddio'r iaith a oedd yn bwysig iawn imi fel myfyrwraig ail iaith. Roedd y llwybr ail iaith yn y flwyddyn gyntaf yn helpu cymaint gyda gramadeg, gwaith ysgrifenedig ac â'r iaith lafar, mae fy Nghymraeg wedi gwella yn sylweddol! Eleni, rwyf wedi mwynhau astudio'r modiwl Diwylliant Gwerin a'r Gymru Gyfoes lle gwnes i brosiect ar draddodiadau'r Nadolig yn fy ardal. Y mae staff yr ysgol mor gefnogol a chyfeillgar, a'r brifysgol ei hun yn lle bywiog i astudio. Yn fy mlwyddyn olaf, rwy'n edrych ymlaen at ddewis prosiect ymchwil ac i fod yn drysorydd y côr merched 'Blank Verse'."

Elain Jones

BA yn y Gymraeg a'r Ffrangeg. Blwyddyn 3

"Rwy' wrth fy modd yma ym Mhrifysgol Caerdydd yn astudio Cymraeg a Ffrangeg. Mae Ysgol y Gymraeg yn gartrefol tu hwnt, gyda phawb yn adnabod ei gilydd a'r staff bob tro yn awyddus i roi help llaw. Mae amrywiaeth eang o fodiwlau ar gael yma i'w hastudio, ac mae'r darlithwyr profiadol yn siŵr o wneud pob elfen o'r cwrs yn ddiddorol. Un o uchafbwyntiau'r flwyddyn yn sicr i mi yw'r Stomp flynyddol, sy'n rhoi cyfle i'r myfyrwyr glywed penillion doniol y darlithwyr wrth iddynt gystadlu yn ein herbyn i gael eu cadeirio ac ennill Coron Fawreddog y Stomp! Mae digonedd o bethau i'w gwneud yma yng nghanol bwrlwm Caerdydd, ac mae gweithgareddau'r Gym Gym yn cynnig ffyrdd gwych o flasu holl ddanteithion y Brifddinas trwy gyfrwng y Gymraeg. Alla i ddim meddwl am le gwell i fod yn fyfyriwr!"

Tegid Richards

BA yn y Gymraeg. Blwyddyn 3

"Dwi wrth fy modd yn astudio'r Gymraeg ym Mhrifysgol Caerdydd. Mae pob blwyddyn yn cynnig ystod eang o fodiwlau a phrofiadau newydd. Ynghyd â helpu'r myfyrwyr ar gyfer y dyfodol, mae staff Ysgol y Gymraeg yn gyfeillgar, ac yn ennyn diddordeb yn y pwnc. Tu allan i'r darlithoedd, mae llu o bethau i'w gwneud, megis ymuno â'r Gymdeithas Gymraeg (Y Gym Gym), mynd ar wahanol dripiau, a chystadlu mewn chwaraeon; gyda rhywbeth yn sicr at ddant pawb. Mae'r gweithgareddau hygyrch, a'r amrediad o gyfleoedd yn rhai o fanteision astudio yn y brifddinas. Felly dewch i Gaerdydd - mae'n lleoliad delfrydol i fyw, astudio a mwynhau!"

Cyflogadwyedd a Gyrfaoedd

O ganlyniad i hyblygrwydd ein rhaglen radd, mae cyfleoedd gyrfaol amrywiol ac eang iawn ar gyfer myfyrwyr sy'n graddio yn y Gymraeg. Byddwch yn ennill gwybodaeth eang am Gymru a'i diwylliant, a sgiliau graenus wrth ddadansoddi a chyflwyno gwybodaeth, ar lafar ac yn ysgrifenedig, elfennau gwerthfawr i unrhyw gyflogwr a gweithle yn y Gymru gyfoes.

Profiad Gwaith

Mae Ysgol y Gymraeg yn cynnig cyfnod o brofiad gwaith i bob myfyriwr fel rhan o'r modiwlau craidd Cymraeg y Gweithle a'r Gymuned, a Sgiliau Iaith. Nod y modiwlau yw rhoi blas ar y modd y defnyddir y Gymraeg mewn gwahanol yrfaoedd a sefyllfaoedd a hefyd ddadansoddi'r defnydd hwnnw mewn modd beirniadol. Fel rhan o'r modiwlau uchod anfonir ein myfyrwyr ar brofiad gwaith ledled Cymru i amrywiaeth o sefydliadau.

Mae'r cynllun yn llwyddiannus a phoblogaidd ac mae sawl myfyriwr bellach wedi cael cynnig swydd yn y sefydliad y bu'n gweithio ynddo.

Lleoliadau Profiad Gwaith Poblogaidd

- BBC
- S4C
- Cwmnïau teledu annibynnol
- Canolfan y Mileniwm
- Cwmnïau cyfieithu
- Cynulliad Cenedlaethol Cymru
- Ysgolion (cynradd ac uwchradd)
- Urdd Gobaith Cymru
- Amgueddfeydd ac orielau niferus
- Cyrff cyhoeddus o bob math

Cyflogadwyedd

Yn ogystal â'r modiwlau craidd uchod, ceir pwyslais mawr ar ddatblygu cyflogadwyedd a chreu cysylltiadau â byd gwaith mewn amrywiaeth o fodiwlau wrth astudio'r Gymraeg yng Nghaerdydd.

Er enghraifft, ar y modiwl arloesol Technoleg Iaith mewn Cymdeithas Ddigidol, byddwn yn archwilio darpariaeth dechnolegol ddwyieithog. Caiff israddedigion y cyfle i sefydlu eu ffug gwmni eu hunain i leoleiddio gwefan neu feddalwedd i'r Gymraeg.

Mae'r modiwl ymarferol Cyfieithu Proffesiynol yn darparu hyfforddiant gan arbenigwyr yn y maes ac yn rhoi blas ar yrfa fel cyfieithydd.

Ar y modiwl Ysgrifennu Creadigol gwahoddir llenorion proffesiynol i arwain gweithdai ymarferol gyda'r myfyrwyr sy'n canolbwyntio ar hogi sgiliau'r dychymyg.

Rhagor ar-lein:
www.caerdydd.ac.uk

Hannah Pearce

BA yn y Gymraeg. Blwyddyn 2

'Roedd gweithio ar brosiect ymchwil o dan gyfarwyddyd aelod o staff Ysgol y Gymraeg yn fuddiol iawn. Ymchwiliais i sut mae oedolion sy'n dysgu Cymraeg yn ynganu seiniau penodol. Dysgais lawer o sgiliau newydd er enghraifft sut i drawsgrifio data a chefais y cyfle i ddefnyddio meddalwedd arbennig ar gyfer gwneud hynny. Mwynheais y profiad yn fawr ac mae'r prosiect wedi fy sbarduno i wneud gwaith pellach yn y maes.'

Gyrfaoedd

Yn sgil Deddf yr Iaith Gymraeg (1993) a sefydlu'r Cynulliad Cenedlaethol yn 1999, mae'r galw am bobl sy'n medru gweithio yn y Gymraeg ar bob lefel wedi cynyddu'n sylweddol, ac mae wedi ehangu ymhellach yn dilyn pasio Mesur y Gymraeg (Cymru) (2011) a sefydlu Comisiynydd y Gymraeg yn 2012.

Mae ein cyn-fyfyrwyr yn dilyn amrywiaeth o lwybrau gyrfa mewn meysydd megis:

- Marchnata a Chyhoeddusrwydd
- Cyhoeddi
- Newyddiaduraeth
- Dysgu
- Busnes
- Y Cyfryngau
- Cyfieithu
- Gweinyddu
- Adnoddau Dynol
- Treftadaeth
- Y Gwasanaeth Sifil
- Y Gyfraith
- Gwaith Cymdeithasol

Sectorau Gyrfa Graddedigion Ysgol y Gymraeg



Diwydiant	10%
Gwasanaethau Cyhoeddus	41%
Proffesiwn / Masnach	49%



Rhydian Lewis

BA Cymraeg & Cherddoriaeth, 2012 / MA mewn Astudiaethau Cymreig a Cheltaidd, 2013
Golygydd Sgriptiau, BBC Cymru

'Yn dilyn graddio o'r cwrs BA dewisais barhau i astudio er mwyn cael gradd MA mewn Astudiaethau Cymreig a Cheltaidd. Roeddwn yn awyddus i ganolbwyntio yn benodol ar elfennau o ysgrifennu creadigol ac roedd yr Ysgol yn fy ngalluogi i fynychu sesiynau un-i-un gydag awduron a dramodwyr profiadol.

Yn ffodus i mi fe gysylltodd aelod o dîm cynhyrchu Pobol y Cwm gydag Ysgol y Gymraeg yn holi a oedd gan unrhyw fyfyriwr ddiddordeb mewn ymgeisio am swydd dros dro yn yr adran olygyddol. Rhoddais gynnig arni ac roeddwn i'n ddigon ffodus i gael fy nerbyn. Treuliais gyfnod fel Is-Olygydd Pobol y Cwm cyn ceisio ar gyfer swydd barhaol fel Golygydd Sgript BBC Cymru. Roedd cael fy mentora gan awduron a dramodwyr yn ystod fy astudiaethau yn sicr wedi fy mharatoi ar gyfer fy ngyrfa. Dysgais beth yw hanfod drama dda, a sut i fynd ati i lunio sgript, ac mae'r sgiliau hynny wedi bod yn amhrisiadwy. Wrth gwrs, ni fyddwn wedi clywed fod y swydd yn cael ei hysbysebu yn y lle cyntaf heb gysylltiadau Ysgol y Gymraeg gyda chwmnïau cyfryngol mwyaf Cymru sydd yn bwysig iawn ac wedi bod o fudd i mi.'



Cerith D. Rhys Jones

BA Cymraeg & Gwleidyddiaeth, 2014
Swyddog Ymgyrchu a'r Cyfryngau, WWF Cymru

'Roedd gan y Brifysgol enw arbennig o dda. O ran y Gymraeg yn benodol, roedd y cyfle i astudio agweddau amrywiol ar y pwnc yn rhywbeth a oedd yn apelio - mae'n llawer gwell gen i'r ochr ieithyddol na'r llenyddol ac roedd modd canolbwyntio ar hynny yng Nghaerdydd. Dwi nawr yn gweithio fel Swyddog Ymgyrchu a'r Cyfryngau i WWF Cymru, rôl sydd yn benodol ddwyieithog ac mae'r gallu i ddefnyddio'r iaith yn fy ngwaith yn beth gwych i mi.

Joiais i mas draw yng Nghaerdydd. Yn gyntaf, mae academyddion o fri yn gweithio yma ac mae myfyrwyr y Brifysgol yn gallu manteisio ar eu profiad a'u gwybodaeth. Yn ail, roeddwn yn weithgar yn Undeb y Myfyrwyr ac roedd hynny'n brofiad gwerthfawr tu hwnt hefyd. Yn drydydd, mae Caerdydd yn lle amrywiol ac amlddiwylliannol dros ben - gwnes i ffrindiau anhygoel tra oeddwn yn fyfyriwr yma!'

Lois Angharad

BA yn y Gymraeg, 2012
Newyddiadurwr, ITV Cymru

'Roeddwn yn gwybod fy mod eisiau gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg felly roeddwn yn teimlo'i bod yn bwysig i mi ddatblygu sgiliau oedd yn mynd i fy ngwneud yn gyflogadwy. Gan nad oeddwn yn siŵr o ran gyrfa, doeddwn i ddim eisiau cau unrhyw ddrysau ac o weld y rhestr o fodiwlau yr oedd yr Ysgol yn eu cynnig, roeddwn yn sicr y byddai'r rhain yn dysgu sgiliau newydd i mi ac yn fy mharatoi at y byd gwaith drwy gyfrwng y Gymraeg.

Tu hwnt i'r ochr academaidd, wedi dod o bentref bach yng ngogledd Cymru, roeddwn i eisiau profi byw yn annibynnol yn y brifddinas. Dydi Caerdydd ddim yn ddinas rhy fawr nac yn rhy fach chwaith ond mae'n ifanc a chosmopolitan. Hefyd, oherwydd ei lleoliad mae mae cymaint o gwmnïau teledu yma, ac roedd hyn o fudd i mi wrth drefnu profiad gwaith.'

Elliw Mair

BA yn y Gymraeg, 2012
Athrawes Uwchradd

'Roeddwn i wedi bod eisiau astudio'r Gymraeg ers pan ddechreuais yn yr ysgol uwchradd gan fy mod yn hoffi llenyddiaeth ac roedd y modiwlau yr oedd Ysgol y Gymraeg yn eu cynnig ar lenyddiaeth fodern a gwleidyddol yn apelio ataf yn fawr. Roedd yr ysgoloriaethau yr oedd y brifysgol yn eu cynnig ar gyfer y Gymraeg a phynciau eraill yn atyniadol hefyd ac roeddwn i am gael cyfle i flasu bywyd y brifddinas gan fy mod yn byw yng nghefn gwlad.

Ces i amser gwych yng Nghaerdydd, gan wneud ffrindiau o bob cwr o Gymru, cael y cyfle i fyw mewn prifddinas brysur ac astudio amrywiaeth o fodiwlau sydd wedi bod o fudd i mi yn fy ngyrfa fel athrawes.'

Rhagor ar-lein:
www.caerdydd.ac.uk

Mae rhai o'n graddedigion adnabyddus yn cynnwys:

Dafydd Wyn Rees

Gohebydd Heno a Prynhawn Da

'Ces fy magu yng nghefn gwlad Cymru felly roedd y syniad o symud i ddinas fawr, ddieithr ychydig yn frawychus. Ond o fewn oriau o gyrraedd roeddwn i'n teimlo'n gwbl gartrefol. Mae Caerdydd yn ddinas fywiog, ddiwylliannol a chroesawgar, lle mae'r Gymraeg yn ffynnu - nid yw'n beth anghyffredin i glywed y Gymraeg boed yng nghanol dre', yn Cathays, Treganna, unrhyw le a dweud y gwir!

Mae angen gafael a dealltwriaeth dda o ramadeg y Gymraeg yn fy swydd i wrth deithio dros Gymru gyfan, ac mae blwyddyn gyntaf y radd yn gyfle i loywi'ch iaith ymhellach. Bu modiwlau craidd yr Ysgol yn help ychwanegol i ddeall patrymau sgwrsio a thafodieithoedd lliwgar Cymru. Mae yna dipyn o waith ymchwil yn perthyn i'm swydd i hefyd ac mae ymwybyddiaeth o draddodiadau llenyddol y Gymraeg a hanes Cymru yn ddefnyddiol tu hwnt.'

Anni Llŷn Parri

Bardd Plant Cymru

'Roedd bod yn fyfyriwr yn Ysgol y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd yn brofiad gwerth chweil. Nid yn unig y gwnes i ffrindiau oes ymysg y myfyrwyr ond hefyd roedd cyfeillgarwch gwerth ei halen i'w gael gyda'r darlithwyr a'r staff. O ran astudio, roedd cyfle i ymateb yn wreiddiol i bynciau a'ch gwthio eich hun i fedru astudio a dadansoddi yn annibynnol. Roedd hefyd ymdeimlad o bwysigrwydd cyd-destun hanesyddol a gwleidyddol ar draws y meysydd astudio.

Pan raddiais roeddwn i'n teimlo fy mod wedi derbyn her yn y Brifysgol ac fy mod wedi elwa'n ddirfawr o'r hyn yr oedd gan yr Ysgol i'w gynnig a dyna pam yr euthum ymlaen i wneud gradd MA.

Mae'r cyfnod a dreuliais yn astudio'r Gymraeg ym Mhrifysgol Caerdydd yn rhan annatod ohonof i fel Cymraes.'

Mae nifer o fyfyrwyr yn dewis mynd ymlaen i astudio yn yr Ysgol am radd uwch: **MA, MPhil, neu PhD**

Meysydd Ymchwil

- Caffael Iaith/Cymraeg i Oedolion
- Cyfieithu
- Cynllunio a Pholisi Iaith
- Llenyddiaeth Gymraeg ar draws y canrifoedd gan gynnwys
  - Hil a Hunaniaeth
  - Naratif a Pherfformio
  - Llenyddiaeth Plant
- Cymry Gogledd America a'r Wladfa ym Mhatagonia
- Newid Ymddygiad Ieithyddol
- Astudiaethau Gwerin a Diwylliant Poblogaidd
- Theori, Methodoleg a Thechnoleg Cyfieithu
- Sosioieithyddiaeth
- Ysgrifennu Creadigol

Ben Screen

myfyriwr PhD a gwblhaodd ei radd israddedig yn Ysgol y Gymraeg, cyn mynd ati i ddilyn gradd doethuriaeth yn yr Ysgol

'Dechreuodd fy nghyfnod yn Ysgol y Gymraeg bedair blynedd yn ôl. Roedd yr amser a dreuliais yn yr ysgol a'r addysg a gefais ynddi o fudd uniongyrchol i fy swydd gyntaf ar ôl gadael, sef cyfieithydd o dan hyfforddiant. Roedd yr Ysgol wedi fy mharatoi'n drylwyr ar gyfer fy ngyrfa newydd ym maes cyfieithu trwy gyfrwng dau o fodiwlau arloesol yr Ysgol, sef Cyfieithu Proffesiynol a Technoleg Iaith mewn Cymdeithas Ddigidol. Ar ôl cyfnod, dychwelais i Ysgol y Gymraeg i ymgymryd â doethuriaeth ym maes Technoleg Cyfieithu, wedi ennill ysgoloriaeth lawn gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol. Datblygodd fy niddordeb yn y pwnc pan oeddwn yn paratoi fy nhraethawd hir ar gyfer y modiwl Ymchwilio Estynedig. Yn dilyn anogaeth fy nhiwtor ar y modiwl hwnnw, gwnes i gais ar gyfer yr arian ac roeddwn yn ôl yn yr Ysgol

erbyn mis Hydref! Mae cymuned ôl-raddedig Ysgol y Gymraeg yn wych, ac mae'r cyfleusterau sydd gennym fel myfyrwyr ymchwil heb eu hail. Byddwn yn annog unrhyw un sydd â diddordeb mewn gwneud ymchwil i unrhyw agwedd ar yr iaith Gymraeg, ei llenyddiaeth a'i chymdeithas i wneud cais i'r ysgol arbennig hon, ni fyddwch yn difaru gwneud.'

Mae nifer o gyfleoedd i astudio ymhellach wedi ichi raddio yn Ysgol y Gymraeg. Os am ragor o wybodaeth am ein graddau ymchwil, cysylltwch â ni.

Sut i Wneud Cais

Pa gymwysterau sydd eu hangen arnaf?

Ar gyfer y radd anrhydedd sengl yn y Gymraeg rydym fel arfer yn gofyn am dri phwnc Safon Uwch (gan gynnwys y Gymraeg). Ond rydym hefyd yn croesawu cyfuniadau o gymwysterau gwahanol. Cysylltwch â'r Ysgol am ragor o fanylion.

Ein cynnig nodweddiadol i fyfyrwyr y llwybr iaith gyntaf yw BBB (gan gynnwys B yn y Gymraeg) neu raddau BB (gan gynnwys B yn y Gymraeg) a Bagloriaeth Cymru.

Ein cynnig i fyfyrwyr sydd am ddilyn y llwybr ail iaith yw BBB (gan gynnwys B yn y Gymraeg) neu BB (gan gynnwys B yn y Gymraeg) a Bagloriaeth Cymru.

Mae gofynion ein graddau cydanrhydedd a'r LLB yn y Gyfraith a'r Gymraeg yn amrywio o radd i radd – cysylltwch â'r Ysgol am ragor o wybodaeth.

Mae'r Ysgol hefyd yn croesawu ceisiadau gan unigolion heb gymwysterau traddodiadol a all wneud cais ar sail profiad yn ogystal ag ar sail cymwysterau ffurfiol. Os oes gennych unrhyw gwestiynau ynghylch eich cymhwyster i ymgeisio am le ar y cwrs, mae croeso ichi gysylltu â ni.

Cyfleoedd Cyfartal

Mae Prifysgol Caerdydd wedi ymrwymo i hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth ym mhob un o'i harferion a'i gweithgareddau, gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud â recriwtio, dewis a derbyn myfyrwyr. Nod y Brifysgol yw sefydlu diwylliant cynhwysol sy'n croesawu ac yn sicrhau cydraddoldeb cyfleoedd i ymgeiswyr o bob oedran, ethnigrwydd, anabledd, strwythur teuluol, rhyw, cenedl, tueddfryd rhywiol, hil, crefydd neu gred arall, a chefndir sosio-economaidd. Mae'r ymrwymiad hwn yn rhan o'r Polisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth sydd ar gael ar wefan y Brifysgol.

Ymgeiswyr ag Anableddau ac Anghenion Penodol

Rydym yn croesawu ceisiadau gan fyfyrwyr ag anableddau a byddwn yn cymryd camau rhesymol i ddiwallu anghenion ym mhob cam o'r broses ddethol, ond i'r anabledd gael ei ddatgelu. Cynigir cefnogaeth gan Wasanaeth Anabledd a Dyslecsia'r Brifysgol ac mae gan Ysgol y Gymraeg Swyddog Cydraddoldeb ac Amrywiaeth sydd wrth law i drafod unrhyw anghenion penodol.

Ymweld ag Ysgol y Gymraeg

Rydym yn cynnal diwrnodau agored i ymgeiswyr sy'n dymuno astudio ar gyfer Anrhydedd Sengl yn y Gymraeg, Cydanrhydedd yn y Gymraeg, a'r rhai sy'n ystyried astudio am radd LLB yn y Gyfraith a'r Gymraeg. Mae ein diwrnodau agored yn achlysuron anffurfiol a chyfeillgar sy'n rhoi cyfle da i gael blas ar fywyd myfyriwr yn Ysgol y Gymraeg. Yn ystod y diwrnodau agored ar gyfer y graddau cydanrhydedd a'r LLB cewch gyfle i ymweld ag Ysgol y Gymraeg ynghyd â'r Ysgol arall yr ydych am astudio ynddi. Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar ein gwefan.

Manylion Cyswllt

Am fanylion pellach cysylltwch ag:

Ysgol y Gymraeg
Prifysgol Caerdydd
Adeilad John Percival
Rhodfa Colum
Caerdydd CF10 3EU

Ffôn: **+44 (0)29 2087 4710**
Ffacs: **+44 (0)29 2087 4604**
E-bost: **cymraeg@caerdydd.ac.uk**
Gwefan: **www.caerdydd.ac.uk/cymraeg**

Ysgoloriaethau, Bwrsariaethau a Ffioedd

Rhagor ar-lein:
www.caerdydd.ac.uk
www.caerdydd.ac.uk/israddedigion

Ysgoloriaethau Prifysgol Caerdydd

Mae Prifysgol Caerdydd yn cynnig ysgoloriaethau arbennig o hyd at £3,000 ar gyfer myfyrwyr sy'n ymgeisio am radd BA Anrhydedd Sengl yn y Gymraeg neu am radd BA Gydanrhydedd yn y Gymraeg ac un o'r pynciau canlynol: Almaeneg (myfyrwyr iaith gyntaf yn unig), Archaeoleg, Eidaleg, Ffrangeg a Sbaeneg. Rhaid i ymgeiswyr gael cyfanswm o 340 pwynt UCAS a gall y pwyntiau hyn ddod o TAG Safon Uwch a/neu Fagloriaeth Cymru. Mae'r wybodaeth ddiweddaraf ynglŷn ag ysgoloriaethau a bwrsariaethau Prifysgol Caerdydd ar gael ar wefan y Brifysgol.

Ysgoloriaethau'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol

Dyfernir ysgoloriaethau gwerth £3,000 yr un gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol i fyfyrwyr sydd yn astudio ar gyfer gradd sengl yn y Gymraeg ac i fyfyrwyr sy'n dymuno astudio LLB yn y Gyfraith a'r Gymraeg.

Am ragor o fanylion ar sut i geisio am yr ysgoloriaeth, ewch i www.colegcymraeg.ac.uk

Ysgoloriaethau 'Meddyliau Creadigol'

Lansiwyd yr ysgoloriaethau newydd hyn yn 2015. Cynigir 5 ysgoloriaeth israddedig gwerth £3,000 yr un i fyfyrwyr sydd am astudio'r Gymraeg yng Nghaerdydd.

Gofynnir i ymgeiswyr ateb y cwestiynau a ganlyn yn y modd mwyaf creadigol:

- Pam ydych chi am astudio'r Gymraeg yng Nghaerdydd?
- Beth sy'n eich gwneud chi'n arbennig?
- Pam y dylai Ysgol y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd eich derbyn chi?

Gellir anfon cais ar unrhyw ffurf megis fideo, podcast, poster, cân, cyflwyniad, PowerPoint, traethawd, cerdd . . . unrhyw beth!

Ffioedd Dysgu ar gyfer myfyrwyr sy'n byw yng Nghymru

Bydd Prifysgol Caerdydd yn codi ffi flynyddol o oddeutu £9,000 ar bob myfyriwr llawn-amser sy'n cofrestru ar gwrs israddedig. I fyfyrwyr o Gymru, mae grant ffioedd dysgu ar gael a benthyciad ad-daladwy ar y ffioedd dysgu sydd yn weddill.

Byddwch yn gymwys i ddechrau ad-dalu eich benthyciad ar ôl i chi orffen eich astudiaethau a phan fyddwch yn ennill mwy na £21,000 y flwyddyn (yn amodol ar delerau ac amodau). Bydd y swm y disgwylir i chi ei ad-dalu yn gysylltiedig â'ch incwm. Am ragor o wybodaeth, neu os nad ydych yn byw yng Nghymru, ewch i wefan Prifysgol Caerdydd – www.caerdydd.ac.uk/fees.

Grantiau Cynnal a Benthyciadau

Mae gwybodaeth ynghylch grantiau a benthyciadau myfyrwyr ar gael ar y gwefannau isod:

Gwefan Prifysgol Caerdydd - **www.caerdydd.ac.uk**

Gwefan Cyllid Myfyrwyr Cymru gan Lywodraeth Cymru - **www.cyllidmyfyrwyrcymru.co.uk**

Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr - **www.slc.co.uk**

Noder bod yr wybodaeth a geir yn y prosbectws hwn yn gywir wrth fynd i'r wasg yng Ngorffennaf 2015 ac ar gyfer y flwyddyn 2016-17. Gall hyn newid yn y dyfodol. Am yr wybodaeth ddiweddaraf ewch at wefan Ysgol y Gymraeg.

FSC
www.fsc.org
MIX
Paper from responsible sources
FSC® C013417

Argraffwyd y llyfryn hwn ar bapur o ffynonellau a reolir yn gynaliadwy yn defnyddio inciau llysieuol. Ardystiwyd y papur a ddefnyddiwyd i gynhyrchu'r prosbectws hwn a'r broses cynhyrchu gan yr FSC®. Mae'r argraffwyr hefyd wedi eu hachredu i IS014001, y safon amgylcheddol a gydnabyddir yn rhyngwladol. Ar ôl ichi orffen gyda'r llyfryn hwn gellir ei ailgylchu, ond ystyriwch ei roi i ffrind neu ei adael yn eich llyfrgell yrfaoedd i eraill ei ddefnyddio.

Diolch

Gellir derbyn y llyfryn hwn ar ffurf print bras (testun), braille neu ar dâp / gryno-ddisg.
I wneud cais am ffurf arall cysylltwch â Laura Roberts:
Ffôn: **029 2087 4455**
E-bost:
RobertsL9@caerdydd.ac.uk

School of Welsh

The School of Welsh at Cardiff University is one of the most dynamic academic centres in which to study the Welsh language, its literature and its culture. It offers research and teaching of the highest quality and is recognized as a lively, modern and friendly School.

Quality teaching and research

The School provides an exciting and challenging learning experience which enables our students to succeed in a competitive environment. The School's outstanding research allows us to offer innovative, practical and relevant modules which provide both academic and vocational skills to prepare our students for the workplace.

According to the Research Excellence Framework (REF) 2014, the School of Welsh at Cardiff University is the best in Wales and is 7th in the UK in terms of the quality of its research. The Framework acknowledges the value and impact of the research that is undertaken in higher education institutions in the UK. The School's research gained the highest possible score (100%) with regard to its impact on the wider world. This achievement was unique amongst all schools across the UK in the field of Modern Languages and Linguistics.

Frequently asked questions

What degree programmes are available?

The School of Welsh offers three degree programmes for undergraduates:

- Single Honours BA in Welsh
- Joint Honours BA in Welsh (by combining Welsh with another subject)*
- LLB Law and Welsh (first language route only)

* *Please contact the School for more information on the courses that are available.*

What is the structure of the degree?

Degree programmes in Welsh have two routes: first language and second language. In Year 1, first language and second language students are taught separately. In Year 2 and in the Final Year, the first language and second language students are taught together for the majority of modules. The LLB Law and Welsh students will study around a third of their modules at the School of Welsh. The students' final degree will be based on their performance during Year 2 (40%) and the Final Year (60%).

Students can study both core and optional modules in areas such as poetry and literature, professional translation, sociolinguistics and language acquisition, language technology, theory and literary criticism and creative writing.

What qualifications will I need?

Our typical offer for a single honours BA degree in Welsh is BBB at A Level (including a B in Welsh (first or second language), or BB grades (including a B in Welsh) and the Welsh Baccalaureate. Our requirements for the Welsh joint honours programmes and LLB Law and Welsh vary according to individual degrees. We also welcome combinations of different qualifications and applications based on experience.

Am I able to apply if I have a disability and/or specific needs?

We welcome applications from disabled students and we will take reasonable steps to meet your needs at each stage of the selection process, as long as the disability is revealed. Support is provided by the University's Disability and Dyslexia Service, and the School of Welsh also has an Equalities and Diversity Officer on hand to discuss any specific requirements.

Will there be an opportunity to gain work experience whilst studying Welsh?

A period of work experience is a core element in the School's degree schemes. Students undertake placements in a variety of organisations such as the BBC, S4C and independent television companies, schools (primary and secondary) as well as the National Assembly for Wales. The aim is to develop skills and provide an insight into Welsh in the workplace. The scheme is successful and popular and many students have been offered employment at the organisations in which they worked.

How can I visit the School of Welsh?

We have open days for applicants who wish to study a Single Honours degree in Welsh, a Joint Honours degree in Welsh, as well as those wishing to study the LLB Law and Welsh degree. Our open days provide a good opportunity to learn about our degree courses, meet with School of Welsh members of staff, as well as gain an insight into student life at Cardiff University.

Which tuition fees will I have to pay?

Cardiff University will charge an annual fee of approximately £9,000 for each full time student who registers on an undergraduate course. For students who live in Wales, a tuition fees grant is available as well as a repayable loan for the remaining tuition fees that are owed.

You will be deemed eligible to start repaying your loan when you have finished your studies and are earning more than £21,000 pa (subject to terms and conditions). The amount that you will pay will be linked to your income. For further information, or if you don't live in Wales, please go to Cardiff University's website - www.cardiff.ac.uk/fees.

Is it possible to apply for a scholarship to study Welsh?

Several scholarships are available*:

Cardiff University Scholarships
(up to £3,000 each)

Coleg Cymraeg Cenedlaethol Scholarships
(£3,000 each)

The School of Welsh 'Creative Minds' Scholarships
(5 scholarships worth £3,000 each)

*Please contact the School of Welsh for details about the terms and requirements of these scholarships.

Are there any maintenance grants and loans available?

Information about grants and loans are available on the following websites:

Cardiff University: **www.cardiff.ac.uk**

Student Finance Wales provided by the Welsh Government:
www.studentfinancewales.co.uk

Student Loans Company: **www.slc.co.uk**

If you require more information, advice or further details regarding any of the aspects mentioned, please go to the School's website:
www.cardiff.ac.uk/welsh

or contact:
School of Welsh, Cardiff University,
John Percival Building, Colum Drive,
Cardiff, CF10 3EU.

Telephone: +44 (0)29 2087 4710

Email: **cymraeg@cardiff.ac.uk**

What our students say

"I chose to study in Cardiff because the course focusses on building confidence in using the language. This was very important to me as a second language student. The second language route in the first year helped me so much with my grammar, written work and speaking, my Welsh has improved significantly! This year, I have enjoyed studying the Diwylliant Gwerin a'r Gymru Gyfoes (Folk Culture and Contemporary Wales) module in which I undertook a project about the Christmas traditions in my area. The staff at the School are so supportive and friendly, and the University itself is a lively place in which to study. In my final year, I am looking forward to choosing a research project as part of the module Blas ar Ymchwil (A Taste of Research) and being the treasurer for the 'Blank Verse' female choir"

Abbie Bolitho. Welsh BA. Year 2

CARDIFF UNIVERSITY
PRIFYSGOL CAERDYDD

Noddwyr Balch
Pencampwriaethau
Hanner Marathon y Byd
IAAF/Prifysgol Caerdydd 2016

Am ragor o fanylion am Ysgol y Gymraeg,
ewch i'n gwefan: **www.caerdydd.ac.uk/cymraeg**

MEWNWYR
cwrdd â'n myfyrwyr

A oes gennych gwestiynau am fywyd yn y Brifysgol?
Cewch yr atebion ar:
www.caerdydd.ac.uk/mewnwyr

Mae rhai o'n myfyrwyr cyfredol yn rhannu eu profiadau ar-lein ar Facebook, felly mae modd cael blas ar fywyd y Brifysgol cyn ichi ddod yma. Mae yna hefyd wybodaeth am ddigwyddiadau yng Nghaerdydd gan gynnwys erthyglau gan ein myfyrwyr cyfredol, fideos a llawer mwy.

Ymholiadau

Ffôn: **029 2087 74710**
Ebost: **cymraeg@cymraeg.ac.uk**

Ysgol y Gymraeg
Prifysgol Caerdydd
Adeilad John Percival
Rhodfa Colum
Caerdydd CF10 3EU, DU

Cadwch mewn cysylltiad

Ymunwch â ni ar Facebook:
facebook.com/ysgolygymraeg

Dilynwch ni ar Twitter:
@ysgolygymraeg

THE QUEEN'S ANNIVERSARY PRIZES
FOR HIGHER AND FURTHER EDUCATION
2013